BYWGRAFFIAD ARTIST

Eugene Asti

Accompanist

Artist Manager: Sioned Jones
sioned.jones@harlequin-agency.co.uk

Astudiodd Eugene Asti yn y Mannes College of Music, Efrog Newydd gyda Jeannette Haien lle'r enillodd ei B.Mus. ac M.A ac yn dilyn hynny bu'n astudio cyfeilio ar y piano gyda Graham Johnson yn Guildhall School of Music and Drama yn Llundain. Mae Eugene bellach yn dysgu yn y Guildhall School of Music and Drama ac mae'n Gydlynydd Cyfeiliant Lleisiol yn Trinity College of Music, ac mae'n rhoi dosbarthiadau meistr yn y DU a thramor yn rheolaidd.

Mae'n un o gyfeilyddion mwyaf blaenllaw ei genhedlaeth, ac wedi perfformio gyda llawer o artistiaid nodedig, gan gynnwys y Fonesig Felicity Lott, Syr Willard White, Syr Thomas Allen, Angelika Kirchschlager, a'r diweddar Fonesig Margaret Price, ac mewn lleoliadau fel Neuadd Wigmore a'r Barbican yn Llundain, y Musikverein yn Fienna, Theatr Mariinsky yn St Petersburg, y Concertgebouw yn Amsterdam, y Kölner Philharmonie, y Megaron yn Athen, y Palais des Beaux-Arts ym Mrwsel, Neuadd Symffoni Birmingham a Carnegie Hall ac Alice Tully Hall yn Efrog Newydd.

Mae ei doreth o recordiadau'n cynnwys caneuon a deuawdau gan Felix a Fanny Mendelssohn a holl ganeuon Clara Schumann ar gyfer Hyperion Records. Mae recordiadau eraill yn cynnwys disg datganiad byw gyda'r Fonesig Sarah Connolly ar gyfer Signum Records, caneuon cyflawn Mozart gyda Sophie Karthäuser a Stephan Loges ar Cyprès, disg o Lieder Schumann dan yr enw *Songs of Love and Loss* gyda Sarah Connolly ar Chandos, datganiad o ganeuon Saesneg ar gyfer BIS gyda James Rutherford ac yn fwyaf diweddar, disg o Felodïau Poulenc *Les Anges Musiciens* ac Hugo Wolf *Kennst du das Land*, y ddau gyda Sophie Karthaüser ar gyfer Harmonia Mundi. Mae recordiadau'r dyfodol yn cynnwys disg o Felodïau Debussy gyda Sophie Karthaüser ar gyfer Harmonia Mundi a *Winterreise* Schubert gyda James Rutherford i BIS.

Yn 2009, dyfeisiodd Eugene gyfres o ddatganiadiau i anrhydeddu pen-blwydd Felix Mendelssohn, ar gyfer King's Place Llundain. Mae hefyd wedi cwblhau argraffiad o ganeuon Mendelssohn i Bärenreiter a gyhoeddwyd yn 2008.

Mae ymrwymiadau diweddar Eugene yn cynnwys datganiadau gyda Sophie Karthaüser yn y Landeskonservatorium, Innsbruck yn La Monnaie, Brwsel; datganiad gyda Syr Bryn Terfel yng Ng?yl Gerdd Dresden; datganiadau yng Ng?yl Lieder Rhydychen a'r Spring Festivals gyda'r Fonesig Dame Felicity Lott, y Fonesig Sarah Connolly, Sophie Karthaüser, Roderick Williams, Stephan Loges a Mhairi Lawson; a rhannu'r llwyfan gyda'r pianydd Graham Johnson ac un deg saith o gantorion ifanc gorau heddiw mewn datganiad yn Wigmore Hall, Llundain.

Mae cynlluniau'r dyfodol yn cynnwys datganiadau gyda'r Fonesig Sarah Connolly, Sophie Karthaüser a James Newby yng Ng?yl Lieder Rhydychen; datganiadau gyda Sophie Karthaüser yn Vortragssaal, Staatsgalerie Stuttgart, y Kölner Philharmonie, a'r Tonhalle yn Zürich; datganiad gyda Syr Willard White yn y Barber Institute ym Mirmingham; datganiad gyda Menna Cazel yn Theatr Bryn Terfel, Pontio.

Mae Eugene yn artist swyddogol i Steinway.

Rydym yn diweddaru'n bywgraffiadau yn gyson, felly cysylltwch â ni am y fersiwn ddiweddaraf, os gwelwch yn dda.